

# Ysgol Deintyddiaeth

Rhaglenni gradd  
**israddedig** 2025



CARDIFF  
UNIVERSITY

PRIFYSGOL  
CAERDYDD

# Ymhlith y 5 uchaf

yn y DU ym maes  
Deintyddiaeth

The Complete University Guide 2025

Yn rhan o ysbyty  
deintyddol go iawn,  
yr ydym yn ddigon  
ffodus i'w alw'n  
gartref i ni

# Roedd 97%

o'n graddedigion  
mewn swyddi  
tra medrus a/neu  
astudiaethau pellach  
ar lefel graddedigion  
15 mis ar ôl i'w cwrs  
ddod i ben.

Deilliannau Graddedigion, 2020/21

**Yn gysylltiedig  
â'r GIG a  
byrddau  
iechyd lleol,**  
gan roi mynediad  
i chi at ystod o  
gleifion a senarios  
clinigol

# Ymhlith y 50 uchaf

yn y byd ym maes  
Deintyddiaeth

Rhestr QS o Brifysgolion Gorau'r Byd 2024

Achrededig gan y  
Cyngor Deintyddol  
Cyffredinol (GDC)

Ystafell efelychu  
clinigol gwerth

# £2.2m

Ile gallwch ymarfer  
eich sgiliau clinigol  
yn ddiogel

# Trawsnewid dyfodol gofal deintyddol

Byddwch yn teimlo bod ‘croeso’ i chi ym mhob man yn ein Hysgol Deintyddiaeth.

Mae gennym oll yr un nod – gwella dyfodol gofal deintyddol ledled Cymru, y DU a thu hwnt.

Oherwydd ein cysylltiadau cryf â'r GIG, byddwch yn cael profiadau clinigol yn y byd go iawn lle byddwch yn profi eich sgiliau mewn sefyllfaoedd cefnogol a diogel. Ac nid cymhwysio i fod yn weithiwr deintyddol proffesiynol yw'r unig ffocws. Gallwch chi hefyd ddylanwadu ar ddyfodol iechyd y geg trwy ymchwil.

Ymunwch â'n casgliad o feddyliau gwych i gyd yn gweithio i wneud y byd yn lle gwell, o atal pydredd dannedd mewn plant a gwneud deintyddiaeth yn fwy cyfeillgar i gleifion - credwch neu beidio - lleihau troseddau treisgar ar strydoedd Caerdydd a newid agweddau tuag at alcohol.

P'un a ydych am fod yn weithiwr deintyddol proffesiynol yn helpu pobl o ddydd i ddydd, dylanwadu ar ddyfodol deintyddiaeth drwy ymchwil, neu arbenigo mewn maes penodol o ddeintyddiaeth, rydym yma i'ch helpu bob cam o'r ffordd.

**Gyda'n gilydd gallwn fynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf cymdeithas.**



# Rhoi pobl wrth galon

Dychmygwch eich hun fel gweithiwr deintyddol proffesiynol gyda'r profiad clinigol a'r hyder i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ledled Cymru, y DU a thu hwnt.



# Dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth

Mae astudio yng Nghaerdydd yn gymaint mwy na darlithfeydd a gwर्सlyfrau.

Byddwch yn ymarfer eich sgiliau clinigol yn ddiogel yn ein hystafell efelychu deintyddol, ar ddyms sy'n cael eu galw'n 'bennau rhithiol', cyn mynd ati mewn sefyllfaoedd clinigol go iawn gydag ystod o gleifion oherwydd ein cysylltiadau cryf â'r GIG.

Byddwch hefyd yn cychwyn ar leoliadau clinigol yng Nghymru, lle byddwch yn cael eich amgylchynu gan dim profiadol o glinigwyr, yn eich cefnogi i fod y gweithiwr deintyddol proffesiynol gorau y gallwch fod.

Bydd y profiadau ymarferol a go iawn hyn yn gwneud yn siŵr eich bod wedi'ch paratoi'n llawn i fod yn weithiwr deintyddol proffesiynol, a bod gennych y sgiliau clinigol a'r hyder i ragori ym mha bynnag yrfa a ddewiswch.



Cymerwch gipolwg y tu mewn i'r ysgol deintyddol

**“ Mae dechrau cylchdroadau clinigol a thrin fy nghleifion fy hun wedi bod yn brofiad gwerth chweil.**

Mae'n braf camu i ffwrdd o'r brifysgol o bryd i'w gilydd a chael profiad ymarferol mewn lleoliadau go iawn, gan weithio ochr yn ochr â nyrsys deintyddol profiadol. Ers dechrau ymarfer clinigol, mae fy sgiliau cyfathrebu a chlinigol gyda chleifion wedi gwella'n aruthrol!

**Laura, myfyriwr Llawfeddygaeth Ddeintyddol BDS**



**“ Nodwedd amlwg i mi oedd y labordy sgiliau clinigol newydd o'r radd flaenaf lle rydyn ni'n gallu ymarfer deintyddiaeth yn hyderus cyn symud ymlaen i drin cleifion!**

Mae cyswllt cynnar â chleifion yn ein rhoi mewn sefyllfa dda ac yn gwneud yn siŵr ein bod wedi ymarfer deintyddiaeth am nifer o flynyddoedd cyn graddio.

**Stephen, myfyriwr Llawfeddygaeth Ddeintyddol BDS**



# Ein Rhaglenni

**Rydym yn cynnig tair rhaglen radd israddedig i'ch paratoi'n llawn ar gyfer eich gyrfa fel gweithiwr deintyddol proffesiynol.**



I archwilio'n llawn yr hyn y mae pob rhaglen yn ei gynnig, adolygu eu meini prawf mynediad, a chloddio'n ddyfnach i'r pynciau y byddwch yn eu hastudio, ewch i'n gwefan.



# Llawfeddygaeth Ddeintyddol (BDS)

Côd UCAS: A200

Fel deintydd, byddwch yn arwain tîm deintyddol, yn gwneud diagnosis a thrin clefydau deintyddol, a thrwsio anafiadau sy'n deillio o ddeintydd.

Byddwch chi'n meithrin dealltwriaeth fanwl o anatomeg ddynol a chlefydau'r geg, yn datblygu eich sgiliau clinigol drwy ystyried senarios go iawn a, maes o law, yn rheoli eich cleifion eich hun ac yn gofalu amdanant.

Pan fyddwch yn graddio, cewch gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a thrin cleifion ar draws ystod o leoliadau, megis clinigau cymunedol, meddygfeydd teuluol, ysbytai deintyddol, a'r lluoedd arfog.

Mae'r cwrs hwn yn fan cychwyn perffaith hefyd ar gyfer gyrfa fel arbenigwr mewn maes penodol o ddeintyddiaeth, neu fel ymchwilydd, yn archwilio rhai o'r heriau mwyaf sy'n wynebu ein cymdeithas.



**“Roeddwn i wir yn hoffi'r syniad o yrfa a oedd yn cyfuno gwaith ymarferol â gwyddoniaeth, ac sy'n rhoi'r cyfle i ryngweithio â phobl drwy'r dydd.**

Roedd deintyddiaeth yn cyfuno'r holl bethau hyn hyd y gwelwn i. Yn bwysicaf oll, mae'n helpu i wella bywydau, sy'n rhywbeth rwy'n ei werthfawrogi'n fawr.

**Shreeya, myfyriwr Llawfeddygaeth Ddeintyddol BDS**



Rhagor o wybodaeth am y cwrs hwn.

# Therapi a Hylendid Deintyddol (BSc)

Côd UCAS: B752

Fel Hylenydd a Therapydd Deintyddol, byddwch yn aelod annatod o'r tîm deintyddol.

Byddwch yn cyflawni amrywiaeth o weithdrefnau megis llenwadau, graddio, llathru, triniaethau clefyd y deintgig, gosod coronau ar goronau dannedd cynradd, a thynnu dannedd cynradd.

Bydd gennych rôl hollbwysig hefyd yn rhoi cymorth i gleifion wrth iddyn nhw gael triniaeth ac yn rhoi'r wybodaeth a'r hyder iddyn nhw ofalu am iechyd eu ceg.

O'ch blwyddyn gyntaf yn astudio, byddwch chi'n cael y cyfle i gymryd rhan lawn mewn sefyllfaoedd clinigol go iawn gydag amrywiaeth o gleifion, lle byddwch chi'n rhoi eich sgiliau clinigol ar waith.

Pan fyddwch yn graddio, cewch gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a thrin cleifion ar draws ystod o leoliadau, megis clinigau cymunedol, meddygfeydd teuluol, ysbytai deintyddol ac ysgolion, a'r lluoedd arfog.

Os ydych chi wedi ymrwymo i weithio yng Nghymru am ddwy flynedd ar ôl i chi raddio, cewch wneud cais am gyllid y GIG i gynorthwyo eich astudiaethau.



**Mae'r cwrs hwn yn cynnig cyfleoedd cynnar i drin**

**cleifion go iawn.** Roedd hyn yn apelio'n fawr ata i gan fy mod yn awyddus i wneud gwaith ymarferol gyda chleifion cyn gynted â phosibl!

**Rosa, myfyriwr BSc Therapi Deintyddol a Hylendid**



Rhagor o wybodaeth am y cwrs hwn.



# Hylendid Deintyddol (DipHE)

Côd UCAS: B750

Fel Hylenydd Deintyddol, byddwch chi'n rhoi cymorth i gleifion wrth iddyn nhw gael triniaeth ac yn rhoi'r wybodaeth a'r hyder iddyn nhw ofalu am iechyd eu ceg.

Byddwch hefyd yn gallu cyflawni gweithdrefnau fel tynnu cen, sgleinio, triniaethau clefyd y deintygig, ac atal.

O'ch blwyddyn gyntaf yn astudio, byddwch chi'n cael y cyfle i gymryd rhan lawn mewn sefyllfaoedd clinigol go iawn gydag amrywiaeth o gleifion, lle byddwch chi'n rhoi eich sgiliau clinigol ar waith.

Pan fyddwch yn graddio, cewch gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a thrin cleifion ar draws ystod o leoliadau, megis clinigau cymunedol, meddygfeydd teuluol, ysbytai deintyddol ac ysgolion, a'r lluoedd arfog.

Os ydych wedi ymrwmo i weithio yng Nghymru am 18 mis ar ôl i chi raddio, cewch wneud cais am gyllid y GIG i gynorthwyo eich astudiaethau.




**Yr uchafbwynt i mi yw'r bobl rydw i wedi cwrdd â nhw yn ystod fy astudiaethau.**

Rwyf wedi cwrdd â ffrindiau anhygoel, a chleifion o bob cefndir - rydych chi'n gwybod eu bod mor ddiolchgar am y gwaith rydych chi'n ei wneud.

**Sophie, Myfyriwr DipHE Hylendid Deintyddol**



Rhagor o wybodaeth am y cwrs hwn.



University  
Dental Hospital

CARDIFF  
UNIVERSITY  
PRIFYSGOL  
CAERDYDD

# Creu cyfeillgarwch gydol oes

Mae Cymdeithas Myfyrwyr Deintyddol Caerdydd (CDSS) yn cael ei harwain gan fyfyrwyr deintyddol, ar gyfer myfyrwyr deintyddol.

Pan fyddwch yn dechrau ar eich taith gyda ni, byddwch yn ymuno â'r gymuned glos hon o fyfyrwyr llawdriniaeth ddeintyddol, hylendid a therapi, ac yn meithrin cyfeillgarwch a chysylltiadau a fydd yn para am oes.

Byddwch yn mynd i'r afael â llu o weithgareddau, o deithiau sgïo, dawnsfeydd haf a diwrnodau chwaraeon gydag ysgolion deintyddol eraill, i ddigwyddiadau elusennol a phrosiectau allgymorth mewn cymunedau lleol lle byddwch yn gwneud gwahaniaeth go iawn.

Yn eich blwyddyn gyntaf, byddwch hefyd yn cael 'rhieni' deintyddol - myfyrwyr o flynyddoedd eraill a fydd yno i'ch cynorthwyo a'ch mentora bob cam o'r ffordd.

Mae'r daith i gymhwyso fel gweithiwr deintyddol proffesiynol yn un gyffrous a heriol, a byddwn ni'n rhannu'r profiad gyda chi.



**Mae CDSS, a grëwyd ar gyfer myfyrwyr deintyddol, yn eich cynorthwyo drwy gydol cyfnod eich astudiaethau ac yn cyfoethogi eich bywyd allgyrsiol.**

Mae'n ffordd wych o gymdeithasu â phobl ar draws yr holl flynyddoedd a ffurfio perthnasoedd hirhoedlog. Mae'r digwyddiadau ar y calendr cymdeithasol yn cynnwys taith sgïo flynyddol CDSS, dawns y gaeaf, digwyddiadau elusennol, a llawer mwy - mae rhywbeth i bawb!

**Kyle Crosby, myfyriwr Llawfeddygaeth Ddeintyddol BDS**



# Mae croeso cynnes yma i chi!



# Camwch i mewn i'n Hysgol

Fel myfyriwr gyda ni gallwch gymryd rhan mewn prosiectau cymunedol a mentrau allgymorth sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl, ac efallai y cewch gyfle hyd yn oed i ddechrau ar gyfleoedd astudio dramor, lle byddwch yn cael eich trochi mewn cymuned newydd, yn amsugno un arall. iaith, a datblygwch eich sgiliau clinigol.

O ymweld ag ysgolion lleol ac addysgu plant am iechyd y geg, i gyflwyno pecynnau gofal hylendid deintyddol i gymunedau digartref ledled Caerdydd, mae ein myfyrwyr yn gwneud newid parhaol, ac yn gweithio i adeiladu dyfodol gwell.

Os oes mater neu bwnc sy'n bwysig i chi, neu os ydych yn teimlo bod angen rhoi sylw iddo yn eich barn chi, bydd ein rhaglen INSPIRE yn eich cynorthwyo i ymgymryd â phrosiect ymchwil o'ch dewis.

Mae'r rhaglen hon yn dod â'r meddyliau disgleiriaf ynghyd, ac mae pob un yn gweithio i ddod o hyd i atebion go iawn i heriau go iawn, ac mae'n fan cychwyn delfrydol ar gyfer gyrfa ym maes ymchwil yn y dyfodol.



**“ Gyda chymorth rhaglen ymchwil INSPIRE, fe wnes i gwblhau prosiect labordy ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd, pwnc hynod berthnasol ym maes deintyddiaeth oherwydd pryderon ynghylch rhagnodi gormod o wrthfotigau.**

Mae'r prosiect hwn wedi fy nghyffroi i ystyried dyfodol ym maes ymchwil academiaidd - byddwn wir yn argymhell cymryd rhan os cewch y cyfle!

**Jess, myfyriwr Llawfeddygaeth Ddeintyddol BDS**



# Dewch i gael rhagflas o fywyd gyda ni

Rydym yn deall bod dewis eich cwrs a'ch prifysgol yn benderfyniad mawr.

O ddiwrnodau rhagflas ac ysgolion haf sydd wedi'u cynllunio i'ch paratoi ar gyfer bywyd yn y brifysgol, i brofiad gwaith yn ein hysbyty deintyddol, mae llwyth o gyfleoedd i gael blas ar sut beth yw bod yn fyfyrwr deintyddol cyn i chi wneud cais.

Cysylltwch â'n tim cyfeillgar i weld beth sydd ar y gweill.

**dentalcentralenquiries@  
caerdydd.ac.uk**



**Fe wnes i brofiad gwaith mewn deintyddfa yn cysgodi deintydd, hylenydd a therapydd, a agorodd fy llygaid i fyd deintyddiaeth.**

**Steffan, myfyriwr BSc Therapi Deintyddol a Hylendid**







**I gael rhagor o wybodaeth  
am yr Ysgol Deintyddiaeth,  
ewch i'n gwefan:**



### **Cysylltu â ni**

Ysgol Deintyddiaeth  
Prifysgol Caerdydd  
Campws y Mynydd Bychan  
Caerdydd CF14 4XY

Ebost:  
**DentalUGAdmissions@  
caerdydd.ac.uk**

Ffôn: **(029) 22 510628**

### **Cadwch mewn cysylltiad**

 [facebook.com/  
cardiffuniug](https://facebook.com/cardiffuniug)

 [@cardiffuniug](https://twitter.com/cardiffuniug)